SNN

# Cais am Enwi a Rhifo Strydoedd

Cyngor Sir Ceredigion

| **Newid enw Eiddo** | | | **£69.50** |
|---|---|---|---|
| Os na fydd unrhyw amwysedd mewn perthynas ag eiddo arall sydd ag enw tebyg yn yr ardal, bydd y newid i enw'r tŷ'n cael ei gymeradwyo, i ddigwydd ar unwaith, a'i ychwanegu at y Rhestr Genedlaethol o Dir ac Eiddo. Bydd y Rhestr yn diwygio enw'r tŷ yn awtomatig ymhlith adrannau mewnol eraill y cyngor ac i'r Post Brenhinol.<br>Yna bydd y Swyddog Rheoli Enwi a Rhifo Strydoedd yn anfon cadarnhad ysgrifenedig o'r newid enw swyddogol i'r perchennog, a ddylai fynd ati i roi gwybod i'w gysylltiadau personol (e.e. banciau, ffrindiau a pherthnasau). | | | |
| **Enw** | | | |
| **Rhif Ffôn** | | | |
| **E-bost** | | | |
| **Cyfeiriad presennol** | | | |
| **Côd post** | | | |
| **A yw enw eiddo hwn yn hanesyddol?** | | | ☐ Ydy ☐ Nac ydy |
| **Hoffech chi i ni eich cefnogi chi i enwi'r eiddo** | | | ☐ Hoffwn ☐ Na hoffwn |
| **I'ch helpu i enwi eich eiddo, gallwch fwrw golwg ar y gofrestr o enwau lleoedd hanesyddol er mwyn cael awgrymiadau**<br>**Map – Enwau Llefydd Hanesyddol** | | | |
| **Enw newydd yr eiddo a awgrymir**<br>(cynigiwch o leiaf ddau enw) | 1.<br>2.<br>3. | | |
| **Ai chi yw perchennog yr eiddo?** | ☐ Ie ☐ Na (Os **Na**, bydd angen cadarnhad ysgrifenedig arnom gan berchennog yr eiddo) | | |
| **Rheswm dros newid enw** | | | |
| **Gwybodaeth ychwanegol** | | | |
| **Llofnod:** | | | **Dyddiad:** |

Swyddog Rheoli Enwi a Rhifo Strydoedd, Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, ABERAERON, SA46 0PA
Ffôn: 01545 572115
E-bost: canolfanrheolicyfeiriadau@ceredigion.gov.uk

SNN

Diolch i chi am hysbysu Cyngor Sir Ceredigion o'ch bwriad i enwi'ch cartref. Cyn cofrestru'r enw newydd, hoffem i chi fanteisio ar gyfnod seibiant 10 diwrnod a gynigiwn er mwyn rhoi cyfle i chi ystyried cyd-destun newid enw eich eiddo. Yn dilyn y cyfnod 10 diwrnod, bydd Cyngor Sir Ceredigion yn cysylltu â chi i ofyn am gadarnhad o'ch penderfyniad ynghylch enw'ch eiddo, cyn dechrau'r broses gofrestru.

Mae Ceredigion yn un o gadarnleoedd yr iaith Gymraeg. Mae hyn yn golygu bod y Gymraeg yn rhan annatod o fywyd bob dydd yma.

Ynghlwm â'r iaith Gymraeg mae diwylliant, hanes a hunaniaeth gyfoethog ac unigryw'r ardal leol a'i thrigolion. O ganlyniad, mae enw lle neu enw tŷ Cymraeg fel arfer yn cyfleu gwybodaeth am natur y lleoliad, am ei hanes, diwylliant yr ardal, neu'r bobl a arferai fyw yno. Gall parchu enwau a thraddodiadau Cymraeg lleol hefyd hwyluso'r broses integreiddio a chryfhau cysylltiadau cadarnhaol o fewn y gymuned.

Mae llawer o berchnogion tai newydd yng Nghymru yn cael eu hunain yn berchnogion balch ar eiddo gydag enw na allant ei ynganu na'i ddeall. Er ein bod yn deall y demtasiwn i gyfieithu neu newid yr enw i'r Saesneg, cyn gwneud eich penderfyniad terfynol, hoffem gynnig cyfle i chi ailystyried.

Yn y cyfamser, os hoffech drafod hyn ymhellach, mae croeso i chi gysylltu â mi,

Yn Gywir,

S A JONES

Steffan Jones
Swyddog Rheoli Enwi a Rhifo Strydoedd

Swyddog Rheoli Enwi a Rhifo Strydoedd, Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, ABERAERON, SA46 0PA
Ffôn: 01545 572115
E-bost: canolfanrheolicyfeiriadau@ceredigion.gov.uk